PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

## Awst 2019 – Gorffennaf 2020

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR

## RHAGYMADRODD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau y mae'r Brifysgol wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac yn tynnu sylw at rai llwyddiannau penodol ac amcanion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## CYNNAL Y GYMRAEG DRWY'R CYFNOD CLO

Mae rhan helaeth o'r cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn wedi bod yn gyfnod eithriadol o heriol i bob sefydliad yn sgil Covid-19 a'r cyfnodau clo. Mae Prifysgol Bangor wedi cymryd camau rhagweithiol i geisio sicrhau bod myfyrwyr, staff a'r cyhoedd yn gallu parhau i ddefnyddio'r Gymraeg er gwaetha'r newidiadau mawr i batrymau ac arferion gwaith yng nghyd-destun dysgu, addysg ac ymchwil, gweinyddu a darparu gwasanaethau.

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Ers dyddiau ein Cynllun Iaith rydym wedi, er enghraifft, sicrhau bod:

- staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio mewn derbynfeydd;
- holl ystod ein gwasanaethau ar gael i fyfyrwyr yn Gymraeg;
- arwyddion yn ddwyieithog;
- cyfle i fyfyrwyr a phartneriaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno ceisiadau am gyllid neu wrth dendro i gynnig gwasanaeth.

Y llynedd, fe adroddon ni ein bod am ddatblygu'r adnoddau iechyd meddwl i fyfyrwyr sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu gwefan 'Cymorth Cymraeg' er mwyn sicrhau bod adnoddau diweddar wrth law gan staff i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Yn sgil Covid, bu heriau ychwanegol a ffactorau ychwanegol i'w hystyried yng nghyd-destun cyflwyno gwasanaethau.

Tynnir sylw at y datblygiadau isod:

- Trwy gyfrwng grant gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu gwefan ac arni ystod eang o adnoddau iechyd meddwl yn Gymraeg ar gyfer myfyrwyr ledled Cymru. Roedd ymgynghori gyda myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg am eu

hanghenion yn rhan bwysig o'r prosiect hwn. Yn ystod y cyfnod clo, mae'r ffaith fod cwnselwyr sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn y Brifysgol yn golygu fod gwasanaeth un-i-un drwy'r Gymraeg wedi bod ar gael i fyfyrwyr.

- Ar gyfer Diwrnod Hawliau Comisiynydd y Gymraeg ym mis Rhagfyr 2019, cynhyrchwyd fideo yn tynnu sylw at yr ystod o wasanaethau Cymraeg y mae'r Brifysgol yn eu darparu i fyfyrwyr. Yn ystod y cyfnod clo, mae'r staff sy'n siarad Cymraeg wedi parhau i fod ar gael i fyfyrwyr ac wedi ymateb i'w ymholiadau a darparu gwasanaeth yn Gymraeg. Mewn rhai cyd-destunau, mae hyn wedi bod yn fwy heriol (e.e. yng nghyd-destun dyddiau agored ar-lein) am fod 'cyrraedd at' ac 'adnabod' siaradwyr Cymraeg mewn cyd-destun rhithiol yn gallu bod yn anos.
- Drwy gyfrwng Interniaeth Myfyrwyr, diweddarwyd gwefan 'Cymorth Cymraeg' y Brifysgol er mwyn sicrhau bod gan staff a myfyrwyr fynediad at siop-un-stop o adnoddau i'w cynorthwyo i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Rhoddwyd sylw penodol i gyd-destun gweithio o bell ar y wefan. https://www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/index.php.cy
- Wrth i'r Brifysgol baratoi ar gyfer Wythnos Groeso (Croeso 2020) a fyddai'n cael ei chynnal yn gyfan gwbl ar-lein, sicrhawyd bod strwythur y wefan yn amlygu gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg yn y Brifysgol yn ogystal â'r cyd-destun dwyieithog, a hynny ar gyfer myfyrwyr rhugl eu Cymraeg, myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg a myfyrwyr heb ddim adnabyddiaeth o'r iaith na'r cyd-destun dwyieithog cyn cyrraedd Bangor.

## CAMAU DATBLYGU

Wrth i heriau'r cyfnod clo barhau yn 20/21, ein blaenoriaeth fydd sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i unrhyw ddull newydd o gynnig gwasanaeth.

## SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi. Mae strwythurau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau bod materion ynglŷn â'r Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn wrth i bolisïau a mentrau newydd gael eu datblygu. Y mae unigolion a chanddynt gyfrifoldeb dros y Gymraeg yn eistedd ar bwyllgorau allweddol y Brifysgol lle mae penderfyniadau polisi perthnasol yn cael eu trafod (e.e. Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol, Grŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu, Grŵp Tasg Cydymffurfio, Grŵp Strategaeth Adnoddau Dynol, Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr).

Bu i aelodaeth Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol gael ei adolygu yn ystod y cyfnod dan sylw gyda chyfrifoldebau'n cael eu hail-ddosbarthu. Sicrhawyd fod Dirprwy Is-Ganghellor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn cael ei benodi.

Un o'r camau y bu'n rhaid eu cymryd yn sgil Covid oedd datblygu polisi *force majeure* ar gyfer y Brifysgol. Sicrhawyd bod y rheoliadau diwygiedig yn cynnwys fel un o'r egwyddorion craidd y bydd hawl myfyrwyr i gael eu hasesu yn y Gymraeg yn cael ei ddiogelu ac y bydd gwaith a gyflwynir i'w asesu yn y Gymraeg yn cael ei drin yn gydradd â gwaith a gyflwynir yn y Saesneg. Roedd y Brifysgol, felly, yn sicrhau bod yr hawliau sylfaenol hyn yn cael eu diogelu mewn amgylchiadau eithriadol.

Yn ystod 19/20 dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu Strategaeth Iechyd a Lles y Brifysgol a darparwyd gwybodaeth am berthnasedd cynnal a datblygu'r Gymraeg i'r maes hwn.

## CAMAU DATBLYGU

Wrth i gyfnodau clo osod gofynion newydd ar y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn parhau i sicrhau fod ein polisïau a'n datblygiadau newydd yn gwarchod egwyddorion craidd y Safonau – sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## SAFONAU GWEITHREDU

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu. Mae hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith wedi bod yn flaenoriaeth i Brifysgol Bangor ers sawl blwyddyn.

Cyflwynodd y cyfnod clo heriau ychwanegol wrth i'r rhan helaethaf o staff weithio gartref. Nod y Brifysgol oedd sicrhau bod y Gymraeg yn parhau mor ganolog â phosib o dan yr amgylchiadau newydd hyn. Tynnir sylw at dri datblygiad perthnasol isod:

- Prifysgol Bangor oedd un o'r sefydliadau cyntaf un yng Nghymru i sicrhau bod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd ffurfiol dros lwyfan *Zoom*. Yn ogystal ag arloesi o ran cyfieithu ar y pryd, oherwydd eu buddsoddiad mewn technoleg dros gyfnod o flynyddoedd, roedd modd i'r tîm cyfieithu gynnal y gwasanaeth cyfieithu testun a phrawf ddarllen yn ddirwystr wrth symud i weithio o bell.
- Llwyddwyd i gynnal hyfforddiant iaith i staff ledled y sefydliad a hefyd cynnal yr asesiadau iaith y mae'r Brifysgol wedi'u datblygu. Rhoddwyd pwyslais newydd ar hwyluso sesiynau sgwrsio i ddysgwyr wrth i'r cyfleoedd 'anffurfiol' i ddefnyddio'r Gymraeg brinhau yn y cyd-destun gweithio o bell. Roedd tua 120 o staff yn dysgu Cymraeg yn y cyfnod dan sylw.
- Newidiwyd ffocws y rhaglen ymchwil ARFer ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle i roi ystyriaeth i effaith gweithio o bell ar ddefnydd o'r iaith yn y gwaith.

## SGILIAU CYMRAEG STAFF

Mae'r tablau isod yn amlinellu sgiliau Cymraeg staff y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2020 yn seiliedig ar gategorïau swyddi:

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL – Sgiliau Siarad Cymraeg**

| | Siarad Cymraeg | Ddim yn Siarad Cymraeg | Siarad Ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Academaidd | 205 | 258 | 173 | 636 |
| | *32%* | *41%* | *27%* | *100%* |
| Academaidd Cysylltiedig | 147 | 30 | 101 | 278 |
| | *53%* | *11%* | *36%* | *100%* |
| Clerigol | 283 | 49 | 87 | 419 |
| | *68%* | *12%* | *21%* | *100%* |
| Maniwal | 164 | 67 | 63 | 294 |
| | *56%* | *23%* | *21%* | *100%* |
| Technegol | 45 | 18 | 31 | 94 |
| | *48%* | *19%* | *33%* | *100%* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymchwil | 35 | 107 | 70 | 212 |
| | *17%* | *50%* | *33%* | *100%* |
| Cyfanswm | 879 | 529 | 525 | 1933 |
| | *45%* | *27%* | *27%* | *100%* |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL – Sgiliau Darllen Cymraeg**

| | Gallu darllen Cymraeg | Ddim yn gallu darllen Cymraeg | Gallu darllen ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Academaidd | 203 | 277 | 155 | 635 |
| | *32%* | *44%* | *24%* | *100%* |
| Academaidd Cysylltiedig | 146 | 36 | 94 | 276 |
| | *53%* | *13%* | *34%* | *100%* |
| Clerigol | 282 | 57 | 85 | 424 |
| | *67%* | *13%* | *20%* | *100%* |
| Maniwal | 156 | 71 | 63 | 290 |
| | *54%* | *24%* | *22%* | *100%* |
| Technegol | 43 | 24 | 28 | 95 |
| | *45%* | *25%* | *29%* | *100%* |
| Ymchwil | 37 | 114 | 62 | 213 |
| | *17%* | *54%* | *29%* | *100%* |
| Cyfanswm | 867 | 579 | 487 | 1933 |
| | *45%* | *30%* | *25%* | *100%* |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL – Sgiliau Ysgrifennu Cymraeg**

| | Gallu ysgrifennu Cymraeg | Dim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | Gallu ysgrifennu ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Academaidd | 191 | 306 | 130 | 627 |
| | *30%* | *49%* | *21%* | *100%* |
| Academaidd Cysylltiedig | 135 | 63 | 80 | 278 |
| | *49%* | *23%* | *29%* | *100%* |
| Clerigol | 259 | 71 | 90 | 420 |
| | *62%* | *17%* | *21%* | *100%* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Maniwal | 141 | 88 | 57 | 286 |
| | *49%* | *31%* | *20%* | *100%* |
| Technegol | 43 | 30 | 20 | 93 |
| | *46%* | *32%* | *22%* | *100%* |
| Ymchwil | 33 | 127 | 50 | 210 |
| | *16%* | *60%* | *24%* | *100%* |
| Cyfanswm | 802 | 685 | 427 | 1914 |
| | *42%* | *36%* | *22%* | *100%* |

## CYRSIAU DATBLYGU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae tîm datblygu staff y Brifysgol yn dîm dwyieithog ac felly yn gallu cynnig pob cwrs a ddatblygir yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg; felly hefyd y tîm Iechyd a Diogelwch a'r tîm technoleg gwybodaeth. Mae'n anodd cofnodi'r union niferoedd / canrannau o staff a dderbyniodd hyfforddiant proffesiynol drwy'r Gymraeg gan fod llawer o'r hyfforddiant hwnnw'n cael ei gynnig yn ddwyieithog.

Mae pwysigrwydd cael staff sydd â'r gallu i hyfforddi yn ddwyieithog wedi bod yn amlwg iawn yn ystod y cyfnod clo wrth i'r sefydliad orfod dygymod â nifer o heriau newydd a gorfod datblygu a theilwra deunydd hyfforddi ar fyr rybudd. Bu'r tîm datblygu staff yn cynnal sesiynau cefnogi un-i-un ac mewn grwpiau ar draws y sefydliad (e.e. yn yr Ysgol Busnes, grŵp i rieni). Bu i'r tîm technoleg gwybodaeth fedru darparu hyfforddiant un-i-un a hyfforddiant ar gyfer carfannau penodol o staff yn ddwyieithog yn ogystal â chynhyrchu nifer o fideos a chanllawiau hyfforddi yn ddwyieithog. Wrth i rai staff ymbaratoi i ddysgu wyneb yn wyneb am gyfnod, roedd modd iddynt drafod eu hanghenion a derbyn arweiniad drwy gyfrwng y Gymraeg gan y tîm Iechyd a Diogelwch.

## SWYDDI GWAG A GOFYNION IAITH

| | Cymraeg yn Hanfodol | Cymraeg yn Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu | Cymraeg yn Ddymunol | Dim gofyn iaith |
|---|---|---|---|---|
| Academaidd | 9 | | 46 | 8 |
| Academaidd Gysylltiedig | 3 | | 12 | |
| Clerigol | 25 | 6 | 25 | 1 |
| Maniwal | 5 | | 7 | |
| Technegol | 1 | | 9 | |
| Ymchwil | 6 | | 12 | 31 |
| **CYFANSWM** | **49** | **6** | **111** | **40** |

## CAMAU DATBLYGU

Bydd y Brifysgol yn datblygu ei dealltwriaeth o anghenion staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg tra'n gweithio o bell ac yn bwydo i'r drafodaeth genedlaethol ar hyn. Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau ar-lein i gynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith a hwyluso'r cyd-destun dwyieithog.

## CWYNION

**Roedd nifer y cwynion mewnol / gohebiaeth am fater gan y Comisiynydd a dderbyniwyd fel a ganlyn:**

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau – 2
- Safonau Llunio Polisi – 1
- Safonau Gweithredu – 2

## CASGLIADAU

Er gwaethaf heriau 19/20 mae Prifysgol Bangor wedi gallu cynnal ei gwasanaethau yn Gymraeg, wedi ystyried y Gymraeg wrth lunio polisïau a rhoi gweithdrefnau mewn lle ac wedi cynorthwyo staff i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gartref. Bydd yr agwedd ragweithiol hon yn parhau yn 20/21.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

Dr Lowri Angharad Hughes
Pennaeth Polisi a Datblygu
Canolfan Bedwyr
Prifysgol Bangor
l.a.hughes@bangor.ac.uk
(01248) 383293